Medi 2025

# Y Scarlets

## Asesiad effaith economaidd a chymdeithasol

Adroddiad terfynol



SQW

# Cynnwys

**Crynodeb gweithredol** .......... **1**
**1. Cyflwyniad** .......... **2**
**2. Effeithiau economaidd meintioledig** .......... **5**
**3. Effeithiau cymdeithasol a chymunedol** .......... **15**

**Cyswllt:**

**Ross Gill**

**Ffôn:07837 872705**

**e-bost: rgill@sqw.co.uk**

**Ymwadiad**

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried cyfarwyddiadau a gofynion penodol ein cleient. Nid yw wedi'i fwriadu ar gyfer unrhyw drydydd parti, ni ddylent ddibynnu arno ac ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb i unrhyw drydydd parti.
Er bod SQW wedi defnyddio gofal a sgiliau rhesymol drwyddo draw, nid yw'n gallu gwarantu cywirdeb na chyflawnrwydd yr wybodaeth a gyflenwir gan y cleient na thrydydd partïon, ac nid yw'n derbyn cyfrifoldeb am unrhyw ganlyniadau cyfreithiol, masnachol nac unrhyw ganlyniadau eraill sy'n deillio o'i ddefnydd.

# Crynodeb gweithredol

## Yn 2024/2025, cynhyrchodd y Scarlets £17.3 miliwn mewn gwerth economaidd, gan gynnal 336 o swyddi a 266 o gyflenwyr uniongyrchol.

- Mae'r Scarlets wrth wraidd y gymuned – ased chwaraeon cenedlaethol sy’n ganolog i hunaniaeth a threftadaeth leol.
- Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod y clwb hefyd yn cael effaith sylweddol ar yr economi leol. Gan gyflogi 112 o bobl yn uniongyrchol, mae'n un o gyflogwyr mwyaf Llanelli – a chan ystyried swyddi yn y gadwyn gyflenwi ac effaith ganlyniadol gwariant ychwanegol yn yr economi, mae'n cynnal tua 336 o swyddi i gyd.
- Mae'r clwb yn cynhyrchu tuag £17.3 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros blynyddol. Mae hefyd yn ddolen bwysig yn y gadwyn gyflenwi leol – gan fasnachu gyda 266 o gwmnïau cyflenwi yn 2024/2025, gan gynnwys busnesau llai yn Sir Gaerfyrddin. Mae ganddo 101 o bartneriaid noddi, gan ddarparu llwyfan i rai o fusnesau lleol pwysicaf y rhanbarth, ac mae’n rhoi Sir Gaerfyrddin ar y map fel lleoliad buddsoddi.
- Mae Parc y Scarlets yn ased rhanbarthol allweddol. Gyda lle i 15,400 o bobl, dyma'r pumed stadiwm mwyaf yng Nghymru, a'r trydydd stadiwm rygbi mwyaf. Yn ogystal â chroesawu 72,000 o bobl i wylio gemau yn 2024/2025, daeth 19,000 o bobl i ddigwyddiadau nad oeddent yn gemau.

## Mae'r Scarlets yn llywio gweithgarwch cymunedol sy’n dwyn manteision iechyd, llesiant a chynhwysiant

- Y tu hwnt i'r niferoedd hyn, mae'r Scarlets yn cynhyrchu gwerth cymdeithasol sylweddol. Mae hyn yn cynnwys rhaglen fawr o ymgysylltu â'r gymuned leol, gan gyflwyno tua 786 o sesiynau sgiliau ysgolion cynradd yn 2024/2025, 86 o sesiynau Clwb Cymunedol Cynhwysol, ac amrywiaeth o weithgareddau sy'n cefnogi cyfranogiad mewn chwaraeon i bob oed a gallu, gan gynnwys gweithgareddau a gyflwynir mewn partneriaeth â'r awdurdodau lleol i gefnogi mynediad at chwaraeon i blant mewn cymunedau dan anfantais. Mae'n chwarae rhan ganolog wrth ysgogi cyfranogiad cymunedol mewn rygbi a chefnogi bywydau egnïol ac iachach, a thrwy Sefydliad Cymunedol y Scarlets, cangen elusennol y clwb, mae'n gwneud cyfraniad mawr at gyflenwi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Gyda'r boblogaeth fwyaf gwasgaredig o holl ranbarthau rygbi Cymru, ac yng nghyd-destun heriau economaidd sylweddol, yn enwedig yn Llanelli, mae'r Scarlets yn angor i'r economi leol – wedi'u gwreiddio yn y gymuned leol ac yn darparu gwerth economaidd a chymdeithasol y tu hwnt i werth cynhenid y gamp.

# 1. Cyflwyniad

## Yn cyflwyno'r Scarlets…

**1.1** Mae'r Scarlets, sy'n un o bedwar clwb rygbi undeb proffesiynol Cymru, yn chwarae rhan ganolog yn rygbi Cymru ac yn natblygiad y gamp yn ne-orllewin Cymru.

**1.2** Wedi'i sefydlu yn 2003 pan ffurfiwyd system rygbi ranbarthol Cymru, mae'r clwb yn adeiladu ar dreftadaeth rygbi hir Llanelli, sydd wedi cynhyrchu nifer o chwaraewyr rhyngwladol Cymru ac sydd ar hyn o bryd yn cystadlu yn y Bencampwriaeth Rygbi Unedig a Chwpan Pencampwyr Investec. Mae hefyd yn gysylltiedig â thua 52 o glybiau lleol ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro, gan gynnwys timau lled-broffesiynol Super Rygbi Cymru, Cwins Caerfyrddin a Chlwb Rygbi Llanymddyfri. Drwy Academi'r Scarlets, mae'n gweithio i ddatblygu talent chwaraewyr cartref, ac mae hefyd yn cynnal Sefydliad Cymunedol elusennol, gan gynnig cyfleoedd i ysgolion, rygbi ieuenctid a chyfranogiad mewn chwaraeon yn y gymuned ehangach.

**1.3** Ers 2008, mae'r clwb wedi'i leoli ym Mharc y Scarlets, Pemberton, Llanelli. Yn ogystal â darparu stadiwm pwrpasol sydd â lle i 15,400 o bobl ar gyfer rygbi'r Scarlets, Parc y Scarlets yw'r pumed stadiwm mwyaf yng Nghymru (a'r trydydd stadiwm rygbi mwyaf[1]). Mae'n lleoliad pwysig ar gyfer lletygarwch a digwyddiadau ac yn ased hamdden pwysig i Sir Gaerfyrddin, ac mae'n hawdd iawn ei gyrraedd o ganol y dref. Ym mis Awst 2025, cyhoeddodd y Scarlets fuddsoddiad newydd sylweddol, yn dilyn cynnig gan y cwmni House of Luxury yn yr Unol Daleithiau i gymryd cyfran fwyafrifol yn y clwb[2].

## … a'r datganiad effaith economaidd a chymdeithasol

**1.4** Heb os, mae'r Scarlets yn chwarae rhan bwysig ym mywyd chwaraeon, cymunedol a chymdeithasol Sir Gaerfyrddin a Chymru gyfan. Fodd bynnag, nid yw hyd a lled hyn wedi'i asesu'n ffurfiol yn ddiweddar: cynhaliwyd yr asesiad effaith diwethaf yn 2012[3], cyn sioc sylweddol pandemig COVID-19.

**1.5** Yn y cyd-destun hwn, comisiynodd Cyngor Sir Caerfyrddin, ar y cyd â Scarlets Rugby, SQW i baratoi dadansoddiad ffres o effaith economaidd a chymdeithasol y clwb. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r canlynol:

- Effeithiau economaidd meintioledig gweithgareddau'r Scarlets. Mae hyn yn cynnwys amcangyfrif o gyfanswm y gyflogaeth a gynhyrchir gan y clwb, yn ogystal â'r effaith ariannol amcangyfrifedig ar yr economi, wedi'i fesur mewn gwerth ychwanegol gros.

---

[1] Ar ôl Stadiwm y Principality a Stadiwm Swansea.com
[2] Wales Online, (8 Awst 2025)
[3] Focus Consulting (2012), Parc y Scarlets a'r Scarlets:

- Effeithiau cymdeithasol a chymunedol ehangach. Yn gyffredinol, nid yw'n bosibl rhoi gwerth ariannol ar y rhain, ond maent yn ganolog i ddiben y Scarlets. Maent yn cael eu meintioli lle bynnag y bo modd, a'u disgrifio mewn termau naratif lle nad oes modd eu meintoli.

**1.6** Mae'r dadansoddiad yn defnyddio data a ddarparwyd gan y Scarlets, yn ogystal â ffynonellau data cyhoeddedig ac amcangyfrifon sy'n deillio o ymchwil flaenorol. Caiff y fethodoleg – a'r cafeatau cysylltiedig – eu hegluro lle bo'n berthnasol.

### Y cyd-destun strategol ac economaidd

**1.7** Er bod y Scarlets o bwys cenedlaethol o ran chwaraeon, mae'r clwb wedi'i wreiddio'n gryf yn Llanelli a'r cyffiniau. Gyda phoblogaeth o tua 51,000, Llanelli yw tref fwyaf Sir Gaerfyrddin a phrif ganolfan ochr dde-ddwyreiniol y sir. Ar un adeg roedd Llanelli'n enwog fel 'tinopolis', y ganolfan fyd-eang ar gyfer y diwydiant tunplat a chyda threftadaeth hir o arloesedd diwydiannol, mae ganddi sylfaen weithgynhyrchu sylweddol o hyd, yn enwedig yn y sector modurol.

**1.8** Y tu hwnt i Lanelli, mae sir ehangach Sir Gaerfyrddin yn wledig i raddau helaeth, gyda phoblogaeth o tua 188,000 wedi'i gwasgaru ar draws Llanelli ei hun, trefi mwy eraill Rhydaman a Chaerfyrddin, a rhwydwaith o drefi a phentrefi llai o faint. Mae siroedd cyfagos Ceredigion a Sir Benfro – sydd, ynghyd â Sir Gaerfyrddin, yn ffurfio rhanbarth y Scarlets – hefyd yn wledig i raddau helaeth, sy'n golygu bod sylfaen boblogaeth ranbarthol y Scarlets yn fwy gwasgaredig na sylfaen poblogaeth clybiau proffesiynol eraill de Cymru, ac mae gan y Scarlets ôl troed daearyddol mwy o faint na'r holl ranbarthau rygbi eraill.

**1.9** Yn hanesyddol, mae Sir Gaerfyrddin wedi wynebu heriau economaidd, sy'n gysylltiedig â thrawsnewid diwydiannol a phellenigrwydd cymharol, ac mae llawer ohonynt wedi bod yn arbennig o amlwg yn Llanelli. Mae cyfraddau gweithgarwch economaidd a chyflogaeth yn is yn Sir Gaerfyrddin nag yn y DU gyfan, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn lefelau incwm fesul pen o'r boblogaeth, sydd tuag 80% o gyfartaledd y DU[4]. Mae lefelau uchel o allgymudo (i Abertawe yn bennaf), ac mae'r cyflogau a enillir gan y rhai sy'n teithio allan o'r sir i weithio, ar gyfartaledd, yn is na'r rhai a enillir gan y rhai sy'n gweithio'n lleol. O fewn cyffiniau Parc y Scarlets, mae de Llanelli yn cynnwys rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig, nid yn unig yn Sir Gaerfyrddin, ond yng Nghymru gyfan.[5]

**1.10** Fodd bynnag, mae strategaeth economaidd newydd Sir Gaerfyrddin yn[6] tynnu sylw at ddau gyfle economaidd sy'n arbennig o berthnasol i safle'r Scarlets o fewn yr economi leol:

---

[4] SYG, Incwm Gwariant Gros Aelwydydd, 2021
[5] Llywodraeth Cymru (2019), Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Rhan o ward Tyisha yw'r 17eg gymdogaeth fwyaf difreintiedig yng Nghymru (allan o 1,909), ac mae sawl un arall yn dod o fewn y 10% o gymunedau mwyaf difreintiedig.
[6] Cyngor Sir Caerfyrddin (2025, ar y gweill), Un Sir Gâr: Gweledigaeth Economaidd Sir Gaerfyrddin 2025–2035

- Yn gyntaf, **diwylliant a chreadigrwydd a'u cysylltiadau â'r economi ymwelwyr.** Cyfrannodd twristiaeth £734 miliwn at economi Sir Gaerfyrddin yn 2024, gan gynnal tua 6,700 o swyddi[7]. Er bod hyn yn rhannol gysylltiedig ag ansawdd yr amgylchedd naturiol a'r dirwedd ac amrywiaeth o atyniadau, mae hefyd yn gysylltiedig ag 'ymdeimlad o le' a diwylliant yn ei ystyr ehangaf, ac mae chwaraeon (a threftadaeth chwaraeon) yn elfen allweddol o hynny. Ar draws de-orllewin Cymru gyfan, mae'r *Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol* yn nodi creu 'economi profiad' fel 'cenhadaeth' allweddol sy'n cefnogi twf economaidd, lle mae asedau chwaraeon, diwylliant a threftadaeth y rhanbarth yn cyfrannu at yr economi ymwelwyr ac, yn fwy cyffredinol, at 'ansawdd bywyd' sy'n ddeniadol i bobl sy'n ceisio byw a buddsoddi yn yr ardal.[8]

- Yn ail, **iechyd a llesiant.** Yn ogystal â'r cynnydd cyffredinol yn y galw am wasanaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd o ganlyniad i newid demograffig, mae rhai buddsoddiadau mawr yn Sir Gaerfyrddin sy'n ceisio cydleoli gwasanaethau iechyd a hamdden, megis y cyfleuster gofal iechyd, hamdden ac ymchwil gwerth dros £200 miliwn ym Mhentre Awel, sydd ychydig dros ddwy filltir o Barc y Scarlets ac sydd yn un o fuddsoddiadau safle unigol mwyaf y sir. **Mae cydweithio cadarnhaol ar y gweill rhwng y Scarlets a Chyngor Sir Caerfyrddin i sicrhau'r budd llawn o Bentre Awel** – gyda'r Scarlets yn defnyddio'r cyfleusterau o'r radd flaenaf at ddibenion hyfforddi, ac yn darparu manteision cymunedol trwy bresenoldeb yn y ganolfan newydd.

- Y tu hwnt i'r manteision economaidd penodol sy'n deillio o fuddsoddiadau unigol sy'n gysylltiedig ag iechyd, mae cydnabyddiaeth gynyddol hefyd o werth economaidd cyfranogiad mewn chwaraeon sy'n deillio o'i fanteision iechyd corfforol a meddyliol[9], ac o gyfraniad rygbi at iechyd a llesiant yn benodol.[10]

**1.11** Archwilir y cyfleoedd hyn yn fanylach mewn perthynas â'r Scarlets yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

---


[7] Cyngor Sir Caerfyrddin, data STEAM
[8] Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru (2022), Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol
[9] Chwaraeon Lloegr [Prifysgol Sheffield Hallam/Prifysgol Fetropolitan Manceinion] (2024), Gwerth cymdeithasol chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn Lloegr
[10] Griffin, S. *et al* (2020), 'The relationships between rugby union, health and wellbeing: A scoping review', British Journal of Sports Medicine, 55:6

# 2. Effeithiau economaidd meintioledig

## Crynodeb

- Yn 2024/2025, cynhyrchodd y Scarlets gyfanswm effaith economaidd o £17.3 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros. Mae hyn yn cynnwys effeithiau uniongyrchol gweithgareddau craidd y clwb a chyflogaeth, effeithiau ei gadwyn gyflenwi, gwariant gan bobl a gyflogir gan y Scarlets ac effeithiau sy'n deillio o ymwelwyr a chefnogwyr.
- Mae hyn yn cyfateb i effaith gwerth £87 miliwn dros bum mlynedd (ar brisiau 2025). Os yw'r clwb yn gallu cynyddu trosiant yn gyson i lefelau cyn y pandemig, gallai hyn gynyddu i tua £102 miliwn
- Mae'r clwb yn cyflogi 112 o bobl gyfwerth ag amser llawn yn uniongyrchol (gan gynnwys gweithwyr llawrydd a gweithwyr dros dro). Mae hefyd yn cefnogi 224 o swyddi eraill mewn mannau eraill yn yr economi – h.y., 336 o swyddi i gyd.

**Crynodeb o effeithiau meintioledig**




## Dull

**2.1** Mae'r bennod hon yn nodi asesiad o effaith economaidd y Scarlets, gan nodi'r canlynol:

- Effeithiau **uniongyrchol** sy'n gysylltiedig â gweithgareddau craidd a chyflogaeth y Scarlets

- Effeithiau sy'n deillio o'r **gadwyn gyflenwi** (h.y., y nwyddau a'r gwasanaethau y mae'r clwb yn eu prynu)
- Effeithiau sy'n deillio o **wariant gan bobl a gyflogir gan** y Scarlets
- Effeithiau sy'n deillio o **ymwelwyr a chefnogwyr.**

**2.2** Rydym wedi defnyddio amrywiaeth o wybodaeth i amcangyfrif yr effaith economaidd. Mae hyn yn cynnwys data gan Rygbi'r Scarlets sy'n ymwneud â staffio, cyflenwyr a phresenoldeb mewn gemau a digwyddiadau. Rydym wedi ategu hyn gyda rhagdybiaethau yn seiliedig ar ddata cenedlaethol swyddogol ac ar werthusiadau ac asesiadau blaenorol. Mae hyn wedi ein galluogi i wneud 'amcangyfrif gorau' ar adeg benodol.

**2.3** Rydym wedi defnyddio'r tymor 2024/2025 fel blwyddyn yr asesiad. Fodd bynnag, rydym yn nodi, er bod presenoldeb mewn gemau wedi gwella ers COVID-19, nad yw wedi dychwelyd i lefelau cyn y pandemig eto (nodwedd sydd hefyd yn her i glybiau eraill). Er mwyn rhoi syniad o'r effaith ychwanegol y gellid ei chyflawni pe bai lefelau presenoldeb yn cynyddu ymhellach, rydym felly wedi cyfeirio at ddata cyn 2020 lle bo'n berthnasol.

**2.4** Cyfeirir at bob effaith sydd â gwerth ariannol fel **gwerth ychwanegol gros**. Dyma fesur o'r gwerth y mae sefydliad neu ddiwydiant yn ei ychwanegu at yr economi. Rydym hefyd wedi trosi cyflogaeth yn **swyddi cyfwerth ag amser llawn**. Dyfynnir effeithiau'n gyson ar dair lefel o ddaearyddiaeth: **Sir Gaerfyrddin, Cymru** a'r **DU** gyfan, ac rydym yn cyfeirio at unedau daearyddol eraill lle bo'n berthnasol.

## Effeithiau uniongyrchol

### Gwerth ychwanegol gros

**2.5** Cyfanswm refeniw'r Scarlets yn 2024/2025 oedd £10.301 miliwn[11]. Roedd costau gweithredol yn £11.24 miliwn, gyda'r clwb yn gwneud colled weithredol o £934,000.

**2.6** I amcangyfrif gwerth ychwanegol gros uniongyrchol o weithgareddau'r Scarlets, ychwanegwyd costau staff o £7.896 miliwn (gan gynnwys ffioedd asiantau chwaraewyr) at y golled weithredol, ac yna tynnu'r dibrisiant. Mae hyn yn cynhyrchu amcangyfrif o **werth ychwanegol gros uniongyrchol o £6.568 miliwn.**

### Cyflogaeth

**2.7** Yn seiliedig ar ddata 2024/2025, **mae'r Scarlets yn cyflogi 112 o bobl yn uniongyrchol**, gan gynnwys chwaraewyr. Mae hyn yn cyfateb i **94.7 o swyddi cyfwerth ag amser llawn.** Mae hyn yn golygu bod y Scarlets yn gyflogwr mawr yn ôl safonau Sir Gaerfyrddin: o blith

[11] Cyfrifon drafft 2024/2025 (heb eu harchwilio)

7,755 o fusnesau'r sir yn 2024, dim ond 35 oedd yn cyflogi mwy na 100 o bobl (gyda dim ond 15 o'r rhain yn Llanelli)[12]. Felly gellid ystyried y clwb fel cyflogwr 'angor' yn y dref.

**2.8** **Mae 52% o'r holl weithwyr yn byw yn Sir Gaerfyrddin**, gyda 78% yn byw o fewn rhanbarth economaidd de-orllewin Cymru[13], a 96% yn byw yng Nghymru.

**2.9** Mae'r clwb yn cyflogi pobl ar ystod o lefelau cyflog. **Yn 2024/2025, y cyflog cyfwerth ag amser llawn canolrifol oedd £36,025**, sy'n uwch na chyflogau gweithle amser llawn canolrif Sir Gaerfyrddin a Chymru sef £33,310 a £34,303 yn y drefn honno. Fodd bynnag, mae'r cyflog canolrifol yn cynnwys cyflogau chwaraewyr, sydd wrth gwrs yn llawer uwch na'r cyfartaledd: mae eithrio pawb sy'n ennill cyflog gros o dros £100,000 yn lleihau'r cyflog canolrifol i £30,303.

**2.10** Yn ogystal, mae'r Scarlets yn contractio pedwar gweithiwr llawrydd, ac yn cyflogi tua **244 o weithwyr dros dro**, sy'n gweithio ar ddiwrnodau gemau yn bennaf. Mae'r rhain wedi'u lleoli'n lleol iawn: mae dwy ran o dair yn byw yn Llanelli (h.y., ardaloedd cod post SA14 ac SA15) ac 84% yn Sir Gaerfyrddin, gyda'r rhan fwyaf o'r gweddill yn teithio pellteroedd byr o ardal awdurdod lleol Abertawe. Yn ogystal â'r enillion ariannol y mae gweithwyr dros dro yn eu derbyn, mae budd cymdeithasol ehangach i gymryd rhan ym mywyd y clwb, ac ystyrir hyn ymhellach yn y bennod nesaf.

**2.11** Gan ddod â staff, gweithwyr llawrydd a gweithwyr dros dro at ei gilydd, mae 360 o bobl yn cael eu cyflogi gan y Scarlets mewn rhyw ffordd. Mae hyn yn cyfateb i oddeutu **112 o swyddi cyfwerth ag amser llawn**, ac yn cynhyrchu **cyfanswm cyflogau blynyddol gwerth £6.553 miliwn.**

## Effeithiau ar y gadwyn gyflenwi

### Gwariant

**2.12** Mae gan y Scarlets effaith hefyd trwy wariant ar nwyddau a gwasanaethau. Cyfeirir at y rhain yn aml fel 'effeithiau anuniongyrchol', ac maent yn cynnwys costau gweinyddol nad ydynt yn gysylltiedig â staff, atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw, prynu cyflenwadau, cymorth marchnata a chyhoeddusrwydd, ac yn y blaen. Ni wnaed unrhyw fuddsoddiad cyfalaf mawr yn 2024/2025.

**2.13** Yn 2024/2025, **gwariodd y clwb £4.587 miliwn drwy 266 o gyflenwyr uniongyrchol.** O'r rhain, roedd 66 wedi'u lleoli yn Sir Gaerfyrddin, a 157 yng Nghymru. O'r gweddill, roedd pob un ond tri o fewn y DU. Er bod rhai cyflenwyr mawr wedi'u lleoli y tu allan i Gymru (er enghraifft, darparwyr cyfleustodau a thelathrebu), mae'n debygol y bydd ôl troed y cyflenwyr

[12] SYG, Cyfrif Busnes y DU.Yn seiliedig ar fusnesau'r sector preifat (gan gynnwys y trydydd sector). Sylwch nad yw'n cynnwys rhai cwmnïau cenedlaethol mawr (megis cadwyni archfarchnadoedd) a fydd â sawl uned yn Sir Gaerfyrddin ac yn cyflogi llawer o bobl gyda'i gilydd.
[13] Diffinnir hyn fel Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe.

lleol yn fwy nag y mae'r ffigurau pennawd hyn yn ei awgrymu, gan fod sawl cwmni sydd wedi'u lleoli yn Lloegr yn debygol o gael canghennau a staff yng Nghymru nad ydynt wedi'u cynnwys yn y data. Dywedir hefyd fod y Scarlets wedi bod yn bwysig wrth helpu rhai busnesau lleol llai o faint – yn enwedig yn y sector bwyd a diod – i ymsefydlu, drwy eu galluogi i feithrin presenoldeb rheolaidd ar ddiwrnodau gemau.

### Gwerth ychwanegol gros

**2.14** Er mwyn amcangyfrif yr effaith economaidd sy'n deillio o'r gadwyn gyflenwi, dyrannwyd pob cyflenwr i'w prif sector, gan ddefnyddio codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol. Yna amcangyfrifwyd cyfanswm y gwerth ychwanegol gros bras drwy gymhwyso'r gymhareb trosiant i'r gwerth ychwanegol gros ar gyfer pob sector yng Nghymru, gan ddefnyddio data o Arolwg Busnes Blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

**2.15** Gan ddefnyddio lleoliadau cyflenwyr, dyrannwyd gwerth ychwanegol gros i'r ardaloedd awdurdod lleol lle mae'r cyflenwr wedi'i leoli. Fel y nodwyd uchod, gallai hyn danamcangyfrif y budd lleol, er nad oes gennym ddata ar leoliad ffisegol canghennau cyflenwyr a staff yn lleol. I addasu ar gyfer hyn, gwnaethom dybio bod 5% o'r gwerth ychwanegol gros a ddyrannwyd i ardaloedd eraill yng Nghymru, a 2.5% o'r gwerth ychwanegol gros a ddyrannwyd i weddill y DU yn cronni i Sir Gaerfyrddin.[14] Yna ychwanegwyd lluosyddion sectoraidd priodol i amcangyfrif effeithiau pellach canlyniadol y gadwyn gyflenwi a gwariant staff.

**2.16** Mae hyn yn arwain at gyfanswm gwerth ychwanegol gros blynyddol ychwanegol amcangyfrifedig o £1.072 miliwn yn Sir Gaerfyrddin, £3.273 miliwn yng Nghymru, a £5.16 miliwn yn y DU.

### Cyflogaeth

**2.17** Amcangyfrifir cyflogaeth gan ddefnyddio gwerth ychwanegol gros fesul swydd yn ôl sector[15], wedi'i ddosbarthu yn yr un ffordd â'r amcangyfrifon gwerth ychwanegol gros a chyda lluosyddion cyflogaeth wedi'u cymhwyso. Mae hyn yn arwain at 27 o swyddi ychwanegol yn Sir Gaerfyrddin, 75 yng Nghymru a 113 yn y DU.

## Effeithiau sy'n deillio o wariant staff

**2.18** Mae'r Scarlets hefyd yn cyfrannu at weithgarwch economaidd trwy wariant staff, a elwir yn aml yn 'effeithiau ysgogedig'. Fel y nodwyd uchod, roedd y clwb yn cyflogi 112 o staff cyfwerth

---

[14] Mae hyn yn dal i gynhyrchu cyfran leol is o effaith na'r hyn a ddyfynnwyd mewn rhai astudiaethau effaith economaidd diweddar eraill ar gyfer clybiau chwaraeon proffesiynol. Fodd bynnag, mae hyn yn gredadwy, o ystyried agosrwydd Sir Gaerfyrddin at Gaerdydd ac Abertawe a thuedd cwmnïau mewn gwasanaethau proffesiynol, y cyfryngau, ac ati i ganolbwyntio yn y canolfannau mwy hyn i wasanaethu'r farchnad ranbarthol.

[15] Nodwn na fydd gwariant yn cyd-fynd yn berffaith ag enillion, o ystyried bod y derbyniadau treth yn cynyddu gydag enillion ac y bydd y duedd i fuddsoddi y tu allan i'r DU hefyd yn cynyddu. Fodd bynnag, rydym yn defnyddio'r fformiwla hon i roi amcangyfrif dangosol.

ag amser llawn, gweithwyr llawrydd a gweithwyr dros dro yn 2024/2025, ac rydym yn defnyddio'r rhain fel sail ar gyfer cyfrifo'r effaith.

### Gwerth ychwanegol gros

**2.19** Mae gwariant cyfartalog yn deillio o arolwg gwariant aelwydydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol, sy'n darparu data ar wariant blynyddol ym mhob gwlad a rhanbarth yn y DU yn ôl math o wariant. Yna caiff gwariant ei raddio i gyflogau gwirioneddol gan ddefnyddio'r gymhareb o enillion cyfartalog i wariant yng Nghymru[16]. Defnyddir dyddiad cod post y staff i amcangyfrif ble y bydd enillion yn cael eu gwario mewn gwirionedd. Yna rydym yn rhoi cyfres o bwysoliadau ar bob math o wariant i ystyried 'gollyngiadau' (er enghraifft, ar gyfer rhai gwasanaethau, mae'n bosibl y bydd cyfran uchel o werth yn cael ei chipio'n lleol; ar gyfer eraill (megis tanwydd), bydd llawer o'r gwerth yn cael ei gipio yn rhywle arall). Yn olaf, rydym yn amcangyfrif y gwerth ychwanegol gros yn seiliedig ar y trosiant: cymhareb gwerth ychwanegol gros ar gyfer Cymru, ac yn rhagdybio lluosyddion gwerth ychwanegol gros cenedlaethol a rhanbarthol[17].

**2.20** Mae hyn yn arwain at werth ychwanegol gros net amcangyfrifedig sy'n deillio o wariant staff o £1.152 miliwn yn Sir Gaerfyrddin, £3.241 miliwn yng Nghymru, a £3.292 miliwn yn y DU.

### Cyflogaeth

**2.21** Cyfrifir cyflogaeth o amcangyfrifon y gwerth ychwanegol gros yn yr un modd ag ar gyfer effeithiau ar y gadwyn gyflenwi. Mae hyn yn arwain at 23 o swyddi ychwanegol yn Sir Gaerfyrddin, 65 yng Nghymru, a 78 yn y DU.

## Effaith ymwelwyr a chefnogwyr

**2.22** Mae'r cyfraniad terfynol at werth ychwanegol gros a chyflogaeth yn deillio o'r gweithgarwch a gynhyrchir gan gefnogwyr ac ymwelwyr sy'n cael eu denu i Sir Gaerfyrddin o ganlyniad i'r Scarlets. Rydym yn ystyried yr effeithiau isod mewn perthynas â chefnogwyr ar ddiwrnod gêm ac ymwelwyr sy'n cael eu denu oherwydd digwyddiadau eraill.

### Cefnogwyr diwrnod gêm

**2.23** Cyfanswm y presenoldeb ar draws 11 o gemau cartref yn nhymor 2024/2025 oedd 72,712. Roedd hyn yn cyfateb i bresenoldeb cyfartalog o 6,610, gan godi i dros 11,000 yng ngornestau'r Gweilch.

---

16 Nodwn na fydd gwariant yn cyd-fynd yn berffaith ag enillion, o ystyried bod y derbyniadau treth yn cynyddu gydag enillion ac y bydd y duedd i fuddsoddi y tu allan i'r DU hefyd yn cynyddu.
17 Yn yr achos hwn, mae'r rhain yn seiliedig ar y cyfrifwyr parod yng Nghanllaw Ychwanegedd (2014) yr Asiantaeth Cartrefi a Chymunedau.

**2.24** Darparwyd brasamcan o bresenoldeb cartref ac oddi cartref ym mhob gêm gan y Scarlets. Yn seiliedig ar hyn, rydym yn amcangyfrif tua 6,779 o gefnogwyr oddi cartref a 65,933 o gefnogwyr cartref.

**2.25** Rydym yn cymryd yn ganiataol y bydd holl gefnogwyr oddi cartref timau Cymru a Lloegr yn ymwelwyr dydd, gyda rhai clybiau o'r Alban, Iwerddon a chlybiau eraill wedi'u rhannu rhwng y rhai sydd fel arfer yn byw yng Nghymru a Lloegr ac yn teithio am y dydd a nifer llai yn gwneud teithiau dros nos. Amcangyfrifir y gwariant cyfartalog fesul unigolyn ar gyfer teithiau dydd a thros nos domestig i Gymru[18], a theithiau rhyngwladol i'r DU[19] gan ddefnyddio data swyddogol, gyda phrisiau tocynnau wedi'u tynnu. Rhoddir ystyriaeth hefyd ar gyfer gwariant sy'n 'gollwng allan' o Sir Gaerfyrddin i rannau eraill o Gymru a'r DU, sy'n codi ar gyfer ymwelwyr rhyngwladol.

**2.26** Bydd y rhan fwyaf o gefnogwyr cartref yn lleol, er y bydd rhai yn teithio o'r tu allan i'r ardal. Rydym yn tybio y bydd 20% yn teithio o'r tu allan i Sir Gaerfyrddin, ac y byddant yn ymwelwyr dydd, yn bennaf o rannau eraill o Gymru. Yn ogystal, bydd rhai cefnogwyr yng nghwmni ffrindiau a theulu. Yn fras, rydym yn tybio y bydd 25% o gefnogwyr yng nghwmni rhywun nad yw'n gwylio'r gêm.

**2.27** Caiff gwariant ei drosi'n werth ychwanegol gros, gan gynhyrchu cyfanswm cyfraniad economaidd gan gefnogwyr diwrnod gêm o £1.310 miliwn yn Sir Gaerfyrddin, £1.443 miliwn yng Nghymru ac £1.576 miliwn yn y DU. Wedi'i rannu â gwerth ychwanegol gros cyfartalog fesul swydd wedi'i llenwi, mae'n rhoi 31 o swyddi a gefnogir gan weithgarwch ymwelwyr.

### Digwyddiadau a gweithgareddau eraill

**2.28** Yn ogystal â gemau rygbi, mae Parc y Scarlets yn cynnal nifer o ddigwyddiadau eraill, gan gynnwys gweithgareddau chwaraeon eraill a gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â chwaraeon fel cynadleddau ac arddangosfeydd.

**2.29** Mae dadansoddiad o ddata a ddarparwyd gan y Scarlets yn dangos bod digwyddiadau nad ydynt yn ymwneud â diwrnodau gêm yn denu tua 19,000 o ddefnyddwyr y flwyddyn. Mae'n debyg mai trigolion lleol fydd y mwyafrif helaeth o'r rhain, er y bydd rhai ymwelwyr o ymhellach i ffwrdd, i ddigwyddiadau fel cystadleuaeth ffitrwydd Hyrox a digwyddiadau busnes sy'n darparu ar gyfer cynulleidfa ranbarthol. Mae amcangyfrif presenoldeb allanol ar gyfer pob digwyddiad yn awgrymu tua 3,500 o ymwelwyr y flwyddyn, gyda gwariant ychwanegol tybiedig o £41 y pen, fel y'i defnyddiwyd yn gynharach.

[18] Llywodraeth Cymru (2025), Ystadegau twristiaeth domestig Prydain Fawr. Amcangyfrifir mai gwariant cyfartalog ymwelwyr domestig fesul unigolyn fesul taith undydd yw £41. Amcangyfrifir mai taith hamdden dros nos ddomestig gyfartalog yw £258.
[19] SYG, Amcangyfrifon o ymweliadau a gwariant tramor. Amcangyfrifir mai taith dramor gyfartalog yw £758.

**2.30** Mae ystyried gollyngiadau ac addasu i'r gwerth ychwanegol gros yn dangos tua £84,000 o werth ychwanegol gros net i Sir Gaerfyrddin.

## Dod â phopeth ynghyd

**2.31** Gyda'i gilydd, amcangyfrifir mai cyfanswm effaith economaidd y Scarlets yw tua **£17.3 miliwn**, gan gynnal **336 o swyddi**. Mae hyn wedi'i ddadansoddi yn y tabl isod (nodwch fod yr holl effeithiau'n gronnus – h.y., mae cyfanswm Cymru yn cynnwys swyddi a gwerth ychwanegol gros yn Sir Gaerfyrddin, ac mae cyfanswm y DU yn cynnwys y ffigurau ar gyfer Cymru):

**Tabl 2-1: Crynodeb o effeithiau economaidd**

| | Sir Gaerfyrddin | Cymru | DU |
|---|---|---|---|
| **Gwerth ychwanegol gros blynyddol (£ miliwn)** | | | |
| Effaith uniongyrchol | 6.568 | 6.568 | 6.568 |
| Effaith ar y gadwyn gyflenwi | 1.072 | 3.273 | 5.160 |
| Effaith gwariant staff | 1.152 | 3.241 | 3.922 |
| Effaith ymwelwyr a chefnogwyr | 1.394 | 1.527 | 1.660 |
| **Cyfanswm** | **10.186** | **14.609** | **17.310** |
| **Swyddi** | | | |
| Effaith uniongyrchol | 112 | 112 | 112 |
| Effaith ar y gadwyn gyflenwi | 27 | 75 | 113 |
| Effaith gwariant staff | 23 | 65 | 78 |
| Effaith ymwelwyr a chefnogwyr | 28 | 30 | 33 |
| **Cyfanswm** | **190** | **282** | **336** |

*Ffynhonnell: SQW. Noder efallai na fydd y cyfansymiau'n adio oherwydd talgrynnu*

## Cadw gwerth

**2.32** Yn ogystal â'r effeithiau a amlinellwyd uchod, mae'r Scarlets yn bwysig o ran cadw gwerth economaidd yn Sir Gaerfyrddin a allai gael ei golli i'r ardal fel arall. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r effaith a gynhyrchir gan ymwelwyr a chefnogwyr, lle byddai rhai gwylwyr yn teithio allan o'r sir yn absenoldeb rygbi proffesiynol yn lleol. Mae hefyd yn debygol y byddai rhywfaint o weithgarwch lleol nad yw'n gysylltiedig â gemau (digwyddiadau busnes lleol, ac ati) yn cael ei golli i'r ardal hefyd, o ystyried capasiti Parc y Scarlets a'i gymeriad unigryw. Er nad yw'r 'sefyllfa wrthffeithiol' hon wedi'i chynnwys yn yr amcangyfrifon o effaith economaidd, mae'n bosibl ei bod yn arwyddocaol.

## Potensial yn y dyfodol

**2.33** Mae'r amcangyfrifon yn Tabl 2-1 i gyd yn seiliedig ar ffigurau 2024/2025. Fodd bynnag, bu'r blynyddoedd diwethaf yn heriol i'r Scarlets, ac mae'r heriau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn alldro 2024/2025: cafodd pandemig COVID-19 effaith negyddol fawr a hirdymor yn ariannol, ac er bod lefelau presenoldeb wedi gwella, mae niferoedd diwrnodau gêm yn parhau i fod yn is na'r lefelau cyn y pandemig. Er enghraifft, mae cyfrifon 2018/2019 yn nodi presenoldeb cyfartalog o 8,000 ar ddiwrnodau gêm, dros 20% yn uwch nag yn nhymor 2024/2025. Cyn y pandemig, roedd Parc y Scarlets yn llawn yn 2018, pan chwaraeodd y Scarlets yn erbyn La Rochelle yn rownd yr Wyth Olaf yng Nghwpan Pencampwyr Ewrop. Roedd y trosiant hefyd yn llawer uwch yn 2018/2019: tua 40% yn uwch mewn termau enwol, ond bron i 80% yn uwch mewn termau real.[20] Yn y flwyddyn honno, gwnaeth y clwb elw net gwerth £167,000.

**2.34** Mae dychwelyd i'r niferoedd hyn neu ragori arnynt yn cyflwyno her, sy'n her i glybiau eraill hefyd. Ond mae hefyd yn dangos potensial ar gyfer twf. Er mwyn rhoi syniad o effaith economaidd hyn, rydym yn tybio dychwelyd i lefelau trosiant 2018/2019 dros bum mlynedd o fan cychwyn 2024/2025, gyda thwf cyfatebol mewn presenoldeb, gyda thwf mwy cynyddrannol mewn staffio a gwariant cyflenwyr. Yn fras, mae hyn yn dangos y potensial ar gyfer effaith economaidd flynyddol o thua £24 miliwn (ar brisiau 2025), gydag effaith gronnus pum mlynedd o ychydig dros £100 miliwn.

**Tabl 2-2: Effeithiau posibl yn y dyfodol (Gwerth ychwanegol gros, £ miliwn, prisiau 2025)**

| | 'Cyflwr sefydlog' | 'Twf' |
|---|---|---|
| Blynyddol | 17.310 | 24.402[21] |
| Pum mlynedd (2024/2025 – 2028/2029) | 86.549 | 101.726 |

*Ffynhonnell: SQW*

## Cysylltiadau busnes

**2.35** Yn ogystal â chyfraniadau at gyflogaeth a gwerth ychwanegol gros, **mae'r Scarlets yn rhan bwysig o rwydwaith busnes Sir Gaerfyrddin.** Mae Parc y Scarlets yn cynnig lleoliad mawr ac uchel ei broffil ar gyfer digwyddiadau busnes a chynadleddau, gan gynnal Gwobrau Busnes Sir Gaerfyrddin a Chinio Dydd Gŵyl Dewi Clwb Busnes Bae Abertawe yn 2024/2025, yn ogystal â thua 14 o gynadleddau a sesiynau hyfforddi busnes lleol. Defnyddiodd Castell Howell, cyflogwr blaenllaw yn Sir Gaerfyrddin a noddwr i'r Scarlets, Barc y Scarlets ar gyfer ei sioe gwasanaeth bwyd fasnach fawr ym mis Chwefror 2025.

[20] Twf mewn termau real wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio cyfrifiannell chwyddiant Banc Lloegr.
[21] Erbyn 2028/2029, gan dybio y bydd yn cynyddu dros y cyfnod.

**2.36** Mae'r clwb yn ffynhonnell bwysig o gyfleoedd **noddi.** Yn 2024/2025, roedd gan y Scarlets 101 o bartneriaid nawdd, gan gynhyrchu refeniw o £1.484 miliwn. Mae dadansoddiad gan y clwb yn dangos bod 70% o'r noddwyr wedi'u lleoli yn rhanbarth y Scarlets, gydag 11% pellach wedi'u lleoli mewn mannau eraill yng Nghymru. Tynnir sylw at noddwyr allweddol rhanbarthol isod:

**Tabl 2-3: Noddwyr allweddol rhanbarthol**

| Noddwr | Disgrifiad |
|---|---|
| Grŵp Gavin Griffiths | Cwmni rheoli gwastraff, ailgylchu ac agregau teuluol, wedi'i leoli yn Abertawe a chyda phresenoldeb sylweddol yn Sir Gaerfyrddin. Noddwr mwyaf y Scarlets ar gyfer tymor 2025/2026. |
| Grŵp Owens | Un o gwmnïau trafnidiaeth, warysau a dosbarthu teuluol mwyaf y DU, wedi'i leoli yn Llanelli. |
| Castell Howell | Cwmni gwasanaeth bwyd mawr ac un o gyflogwyr sector preifat mwyaf Cymru, wedi'i leoli yn Cross Hands a chyda depos ledled Cymru a Lloegr. |
| Dyfed Steels | Y stocddaliwr a'r prosesydd dur annibynnol mwyaf yng Nghymru a gorllewin Lloegr, wedi'i leoli yn Llanelli a chyda sawl cangen ledled Cymru a Lloegr. |
| Gofal Cartref Cadog | Darparwr gofal cartref, wedi'i leoli yn Rhydaman ac yn gweithredu ar draws de-orllewin a Chanolbarth Cymru. |
| Siopau Bwyd CK | Cadwyn siopau cyfleustra rhanbarthol, wedi'i lleoli yn Llanelli a chyda phresenoldeb ar draws de-orllewin Cymru. |
| Cawdor | Delwriaeth geir, gyda'i phencadlys yng Nghastellnewydd Emlyn a chyda siopau ar draws Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. |

*Ffynhonnell: SQW*

**2.37** Mewn rhanbarth sydd â sylfaen fusnes gymharol fach ac ychydig o gyflogwyr mawr, mae'r Scarlets yn gyfle pwysig i 'arddangos' y gymuned fusnes leol a rôl rhai o gwmnïau blaenllaw'r rhanbarth yn genedlaethol. Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r strategaethau economaidd ar gyfer Sir Gaerfyrddin a de-orllewin Cymru, sy'n pwysleisio gwerth tyfu'r sylfaen fusnes 'gynhenid' a meithrin gwydnwch drwy gryfhau cysylltiadau cwmnïau â chadwyni cyflenwi a chymunedau lleol[22].

**2.38** Mae nawdd yn darparu gwerth sylweddol i gwmnïau sy'n noddi. Canfu dadansoddiad ar ran y Scarlets fod gwerth darlledu gwelededd y brand sy'n deillio o nawdd Stand y Gogledd werth £197,000 fesul tymor, a bod gan welededd y brand ar flaen y crys werth darlledu o £283,000

[22] Cyngor Sir Caerfyrddin (2025, ar y gweill), *Un Sir Gâr: Gweledigaeth Economaidd Sir Gaerfyrddin 2025-35*; Cyngor Sir De-orllewin Cymru (2022), *Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol*

a gwerth cyfryngau cymdeithasol o thua £136,000.[23] Mae gan y clwb darged i godi refeniw nawdd i £1.75 miliwn yn 2025/2026[24]. Mae'n werth nodi yn y cyd-destun hwn fod cynulleidfaoedd darlledu'r Scarlets wedi tyfu'n gyflym: gwelodd y clwb y twf cyflymaf o flwyddyn i flwyddyn mewn cynulleidfaoedd darlledu o blith unrhyw glwb Pencampwriaeth Rygbi Unedig yn 2024/2025[25].

[23] Blinkfire for Scarlets, 2025
[24] Y Scarlets (2025), Strategaeth a chynllun gweithredu nawdd
[25] Pencampwriaeth Rygbi Unedig (2025), Adroddiad Diwedd Tymor 2024/2024

# 3. Effeithiau cymdeithasol a chymunedol

**Crynodeb**

- Mae'r Scarlets yn gwneud cyfraniad mawr i'r gymuned leol, gan gynnwys drwy Sefydliad Cymunedol y Scarlets, cangen elusennol y clwb, sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau sy'n cefnogi cyfranogiad mewn chwaraeon i bob oed a gallu, gan gynnwys gweithgarwch a gyflwynir mewn partneriaeth â'r awdurdodau lleol i gefnogi mynediad at chwaraeon i blant mewn cymunedau difreintiedig. Mae yna hefyd raglen helaeth o weithgareddau i feithrin cyfranogiad cynhwysol.
- Y Scarlets yw unig glwb proffesiynol Cymru sydd wedi'i leoli mewn ardal lle mae gan y rhan fwyaf o bobl ddealltwriaeth o'r Gymraeg. Mae'n 'sefydliad angor' pwysig ac mae ganddo rôl allweddol yn niwylliant a hunaniaeth leol.
- Mae'r Scarlets yn gweithio mewn partneriaeth â sawl elusen. Mae'r clwb yn gwneud cyfraniad pwysig at godi ymwybyddiaeth, yn enwedig ymwybyddiaeth o elusennau lleol llai o faint.

## Cyflwyniad

3.1 Mae'r Scarlets yn gwneud cyfraniad mawr at y gymuned leol. I lawer o bobl, bydd hyn yn bwysicach na'r effaith economaidd ar y clwb: mae gan Lanelli, a'r rhanbarth ehangach, dreftadaeth rygbi hir a nodedig, ac mae presenoldeb y Scarlets yn rhan annatod o ddiwylliant a hunaniaeth leol. Y tu hwnt i hynny, mae gwerth cynhenid chwaraeon a'i effaith ar iechyd corfforol a meddyliol, a pherthyn i'r gymuned ehangach ac ati, yr un mor arwyddocaol â'r effaith fesuradwy ar werth ychwanegol gros.

- Mae'r bennod hon yn ystyried yr effeithiau cymunedol a chymdeithasol ehangach hyn. Fel fframwaith ar gyfer hyn, rydym yn defnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sy'n bodoli i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.[26] Mae'r ddeddf yn nodi saith 'nod llesiant', a ddangosir yn Ffigur 3-1. Yn y bennod hon, rydym yn disgrifio effaith y Scarlets mewn perthynas â phob un o'r nodau (ac eithrio'r nod o 'Gymru lewyrchus', a nodir yn y bennod flaenorol). Mae hyn hefyd yn defnyddio astudiaeth fawr a gynhaliwyd yn 2021/2022 gan Chwaraeon Cymru i asesu effaith gymdeithasol chwaraeon a hamdden egnïol yng Nghymru[27].

**Ffigur 3-1: Y saith nod llesiant**




*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

## Cymru iachach

**3.2** Mae corff sylweddol o dystiolaeth yn ymwneud â manteision iechyd cymryd rhan mewn chwaraeon[28]. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Manteision iechyd uniongyrchol yn sgil cyfranogiad gweithredol**, gan gynnwys y manteision i iechyd meddwl a ddaw yn sgil gweithgarwch corfforol. Mae dadansoddiad gan Brifysgol Caeredin yn dod i'r casgliad y gellir "cysylltu pob math o rygbi ag ystod eang o fanteision iechyd a lles"[29], ac mae ymchwil ar wahân yn dangos manteision hirdymor cyfranogiad mewn rygbi yn ystod plentyndod wrth i ymgysylltu â gweithgaredd corfforol barhau drwy fywyd yn hwyrach[30].

- **Manteision llesiant goddrychol**, gan gynnwys teimladau o berthyn a mwy o bositifrwydd a hunan-barch, gan gefnogi canlyniadau iechyd meddwl. Er bod yr astudiaeth adenillion cymdeithasol o fuddsoddi yn ymwneud yn bennaf â chyfranogiad

[26] Llywodraeth Cymru (2015), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
[27] Chwaraeon Cymru [Prifysgol Sheffield Hallam] (2022), Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi mewn Chwaraeon yng Nghymru. Canfuwyd bod pob punt a fuddsoddir mewn chwaraeon yn darparu £4.44 o werth cymdeithasol, yn seiliedig ar fuddion iechyd corfforol a meddyliol, gwerth gwirfoddoli, ac ati.
[28] Ibid.
[29] Griffin, S. *et al* (2020), 'The relationships between rugby union, health and wellbeing: A scoping review', British Journal of Sports Medicine, 55:6
[30] Awdurdod Ymchwil Iechyd y GIG (2019), Astudiaeth Iechyd a Llesiant Rygbi

uniongyrchol mewn gweithgaredd chwaraeon, bydd llawer o'r manteision hyn hefyd yn berthnasol i gyfranogiad anuniongyrchol, fel mynychu gemau.

3.3 **Yn 2024/2025, cefnogodd y Scarlets nifer o weithgareddau a oedd yn hyrwyddo cyfranogiad corfforol uniongyrchol mewn rygbi** i blant, pobl ifanc ac oedolion, yn ogystal â chyfleoedd hyfforddi a datblygu. Roedd y rhain yn cynnwys:

- O fewn **ysgolion cynradd**, cyflwyno **786 o sesiynau sgiliau** gyda chyfanswm o 15,940 yn bresennol[31]; a **21 o wyliau rygbi i ysgolion cynradd** gyda chyfanswm o 3,200 yn bresennol.Mae'r rhain wedi'u dosbarthu'n eang o amgylch rhanbarth y Scarlets, yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Yn ogystal, denodd saith sesiwn rygbi i ferched yn unig bresenoldeb o 121, a denodd gŵyl draeth yn Ninbych-y-pysgod 200 arall.
- Amrywiaeth o **weithgareddau diwrnod gêm** (tag hanner amser, cystadlaethau ysgolion cynradd, gwyliau rygbi i blant dan 9 oed, dan 11 oed, Gŵyl Hwb Merched, rygbi cerdded, ac ati), gan ddenu presenoldeb o 2,690.
- 22 o **wersylloedd rygbi** gyda phresenoldeb o 385. Roedd y rhain yn cynnwys 17 o wersylloedd 'Fit Fed Fun' (gweler isod) ac yn cynnwys dau ar gyfer pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.
- 37 o **sesiynau rygbi gallu cymysg** (dynion, menywod ac ieuenctid), a gyflwynwyd ar y cyd â Llanelli Warriors a Pembrokeshire Vikings ac a ddenodd bresenoldeb o 209.
- 61 o sesiynau **rygbi cadair olwyn** unigol, yn ogystal â rhaglen o sesiynau wythnosol, gyda chyfanswm o 1,925 yn bresennol.
- 35 o **sesiynau rygbi cynrychioliadol** (dan 16/dan 15/dan 11), gyda chyfanswm o 390 yn bresennol.
- **Sesiynau hyfforddi agored** yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro, gyda chyfanswm o 1,588 yn bresennol.

3.4 Mae'r rhain yn dangos rhaglen helaeth i annog cyfranogiad uniongyrchol mewn chwaraeon yn y gymuned, a gyflwynir mewn partneriaeth ag ysgolion, colegau a chlybiau rygbi lleol. Yn ogystal, mae'r clwb yn gwneud cyfraniad pwysig at iechyd meddwl a llesiant ehangach. Er enghraifft, ers 2023, mae'r Scarlets wedi gweithio mewn partneriaeth â **Sporting Memories**, elusen ledled y DU sy'n rhedeg clybiau cymunedol i helpu pobl hŷn, yn enwedig y rhai sy'n byw gyda dementia, iselder neu sydd wedi'u hynysu fel arall, i feithrin cysylltiadau ag eraill[32].

[31] Mae 'presenoldeb' yn golygu cyfanswm y bobl sy'n cymryd rhan ym mhob sesiwn.Nid yw'r rhain o reidrwydd yn unigolion unigryw (efallai bod rhai wedi cymryd rhan sawl gwaith mewn gwahanol sesiynau).
[32] Gweler https://www.sportingmemories.uk/.

Mae clwb Sporting Memories yn Llanelli yn cyfarfod ym Mharc y Scarlets: yn 2024/2025, cyfarfu 32 gwaith, gyda thua 25 o gyfranogwyr ym mhob cyfarfod.

3.5 **Mae'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu at amcanion iechyd strategol Llywodraeth Cymru.** Mae canran y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon dair gwaith neu fwy fesul wythnos wedi'i chynnwys fel un o'r 50 Dangosydd Llesiant Cenedlaethol sy'n cefnogi cyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol[33]. Yng nghyd-destun poblogaeth sy'n heneiddio a chydnabyddiaeth o effaith ffactorau ymddygiadol ar afiechydon y gellir eu hatal, mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru darged hefyd i gynyddu cyfran y boblogaeth sy'n egnïol[34]. Mae strategaeth iechyd meddwl a llesiant newydd Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at "flociau adeiladu cymdeithas ehangach sy'n cefnogi iechyd meddwl da", gan gynnwys clybiau chwaraeon sydd wedi'u lleoli yn y gymuned[35].

### Cymru sy'n fwy cyfartal

3.6 Mae llawer o weithgarwch cymunedol y Scarlets yn cefnogi mynediad mwy cyfartal at gyfleoedd chwaraeon a hamdden a'r manteision iechyd a chymdeithasol sy'n deillio o hynny. Er bod hyn wedi'i ymgorffori'n rhannol yn y gweithgareddau y tynnwyd sylw atynt uchod, mae mentrau eraill yn cynnwys **Clybiau Cymunedol Cynhwysol** rheolaidd sydd ar agor i bobl ifanc 6-16 oed sydd ag amrywiaeth o anableddau, gan gynnig y cyfle i deuluoedd a ffrindiau chwarae rygbi digyswllt. Yn 2024/2025, cefnogodd y Scarlets 76 o sesiynau Clwb Cymunedol Cynhwysol yn Rhydaman, Llanelli a Hwlffordd, a 10 arall a ddarparwyd ar y cyd ag Uned Atgyfeirio Disgyblion Cyngor Sir Caerfyrddin. Cefnogir mynediad pobl ag anableddau i gymryd rhan mewn sesiynau rygbi ymhellach gan y rhaglenni rygbi cadair olwyn a rhaglenni gallu cymysg poblogaidd y cyfeiriwyd atynt uchod, a chan **Ddigwyddiad Cymunedol i Bobl Fyddar**, a ddenodd 57 o gyfranogwyr. Cynhaliwyd tri Gwersyll Rygbi i Bobl Anabl hefyd ym Mharc y Scarlets, Prifysgol Aberystwyth a Choleg Sir Benfro. Mae'r gweithgareddau hyn yn eu tro yn cyfrannu at Strategaeth Rygbi Anabledd Undeb Rygbi Cymru.

3.7 Mae'r Scarlets hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi mynediad at chwaraeon mewn cymunedau dan anfantais. Yn 2024/2025, cynhaliodd y clwb 17 o wersylloedd **Fit, Fed, Fun** ar gyfer plant oedran ysgol gynradd (dau ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol), a gyflwynwyd mewn cydweithrediad â thîm Hamdden Actif Cyngor Sir Caerfyrddin a'r awdurdodau lleol eraill yng Ngheredigion a Sir Benfro. Gan ganolbwyntio ar ardaloedd o amddifadedd (ac wedi'u dosbarthu'n eang ar draws y rhanbarth), mae'r gwersylloedd yn cynnig brecwast a chinio i blant ochr yn ochr â gweithgareddau chwaraeon aml-sgiliau, gyda chyfanswm o 300 yn mynychu.

---

[33] Llywodraeth Cymru, Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol (Dangosydd 38)
[34] h.y., bodloni'r canllawiau o 150 munud o weithgarwch cymedrol i egnïol yr wythnos.Iechyd Cyhoeddus Cymru (2023), Gweithio gyda'n gilydd dros Gymru iachach: Ein strategaeth hirdymor 2023-2035
[35] Llywodraeth Cymru (2025), Y strategaeth iechyd meddwl a llesiant meddyliol 2025-35

## Cymru o gymunedau cydlynus

3.8 Ochr yn ochr â hyn, mae rhaglen gymunedol y Scarlets yn ceisio sicrhau bod rygbi wrth wraidd pob cymuned yn y rhanbarth. Yn 2024/2025, cyflwynwyd chwe sesiwn i blant o gymunedau Syriaidd a Libaneaidd yn Llanelli (gyda 66 yn bresennol), yn ogystal â chwe sesiwn yn canolbwyntio ar bobl ddigartref (a gyflwynwyd ar y cyd â The Wallich, elusen digartrefedd, yn Llanelli) a chymuned y teithwyr. Cymerodd y Scarlets ran hefyd mewn digwyddiadau diwrnod y lluoedd arfog rheolaidd gydag ysgolion a cholegau, ac yn Llanelli Pride.

**Hyrwyddo cynhwysiant a chyfleoedd i bawb**

*"Mae fy mab hynaf yn awtistig iawn, felly mae'r cyfle i weithio gyda disgyblion ag amrywiaeth o alluoedd corfforol yn ogystal ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn agos at fy nghalon. Pan greodd y Scarlets rôl bwrpasol yn eu tîm cymunedol i ganolbwyntio ar gynhwysiant yn y gamp, fe wnes i achub ar y cyfle i ddod â hyn i gyd at ei gilydd.*

*"Mae gennym ni dri Chlwb Cymunedol Cynhwysol prysur, sydd â'r niferoedd a'r lledaeniad daearyddol mwyaf erioed yn hanes y clwb hwn. Rydym yn cynnal sesiynau i roi cyfle i bobl ifanc ag anableddau rhwng chwech ac 16 oed chwarae rygbi a gemau addysg gorfforol eraill, ac rydym yn gwneud hynny mor synhwyraidd a hwyliog â phosibl."*

*"Mae'n ymwneud â darparu profiadau sy'n rhoi cyfle i'r rhai ag anableddau a'u brodyr a'u chwiorydd gael hwyl, ymgysylltu â gemau a gweithgareddau a rhoi cydraddoldeb a mynediad at chwaraeon yn yr un ffordd ag eraill. Mae hefyd yn wych iawn i rieni gan ei fod yn creu canolfan a rhwydwaith cymdeithasol i deuluoedd ddod at ei gilydd. Mae'n ymwneud â dod â phopeth at ei gilydd. Er enghraifft, pan welwch chi bobl ifanc o bob gallu yn chwarae rygbi cadair olwyn yn erbyn eu ffrindiau a phawb yn cymryd rhan, mae'n wych eu gweld nhw'n llawn cyffro.*

*Mae'r ochr gymdeithasol yn wirioneddol bwysig, roedd gennym ni un dyn ifanc 19 oed nad oedd am fynd i'r coleg ac roedd bod yn rhan o'r Llanelli Warriors yn cynnig rhwydwaith cymdeithasol iddo. Roedd hyfforddi ar ddydd Iau a chwarae ar ddydd Sadwrn yn bwynt ffocws allweddol i'w gael allan o'r tŷ ac ymgysylltu ag eraill.*

*"Mae gennym ni lawer o brosiectau ar y gweill – mae hi'n mynd i fod yn flwyddyn brysur iawn! Rydym yn cynnal sesiynau gyda ffoaduriaid o Syria mewn cydweithrediad â Chyngor Tref Llanelli ac wedi cael ymgysylltiad da iawn, felly byddwn yn edrych i sefydlu ein sesiynau cenedligrwydd cymysg Scarlets ein hunain ar gyfer y rhai sydd wedi cael eu dadleoli'n orfodol o'u gwledydd cartref.*

> *"Rydym yn gweithio gyda'r Gateway Resort ar raglen gyda chymuned y teithwyr mewn partneriaeth â Chyngor Sir Caerfyrddin i ddarparu sesiynau rygbi agored – mae'r rhain wedi bod yn boblogaidd iawn.*
>
> *"Hefyd, rydym yn gweithio ar sesiynau gyda Thîm Cymorth Ieuenctid Ethnig Cymru yn y mosg yn Hwlffordd, i ddarparu hyfforddiant ac offer i Arweinwyr Rygbi i gynnal rhaglenni rygbi gyda'r nod o gysylltu chwaraewyr â chlybiau rygbi. Mae gennym bresenoldeb yn Llanelli Pride a byddwn yn edrych i sefydlu clwb rygbi arall ar gyfer chwaraewyr Rygbi Hoyw Rhyngwladol yn ogystal â chysylltiadau â'r Swansea Vikings.*
>
> *"Rydym hefyd yn gweithio gydag awdurdodau lleol ar sefydlu rhaglen rygbi i bobl ddigartref a rhaglen arbennig ar gyfer ysgolion gyda phobl ifanc â phroblemau ymddygiad."*
>
> **Ollie West**, Swyddog Cynhwysiant y Scarlets

## Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

**3.20** Fel y nodwyd eisoes, mae'r Scarlets – a rygbi yn ehangach – yn rhan greiddiol o ddiwylliant a hunaniaeth ranbarthol, ac mae budd diwylliannol a chyfraniad at 'ymdeimlad o le' ac undod cymunedol yn effeithiau allweddol anweledig ac anfesuradwy.

**3.21** Mae gan y Scarlets rôl bwysig hefyd yng nghanol y fro Gymraeg.Y clwb yw'r unig un o bedwar clwb proffesiynol Cymru sydd wedi'i leoli mewn sir lle mae gan y rhan fwyaf o bobl rywfaint o wybodaeth o'r Gymraeg[36], ac mae'r cysylltiad rhwng gweithgaredd cymunedol lleol bywiog (gan gynnwys gweithgareddau chwaraeon), sefydliadau angor sy'n cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg, a chadw poblogaeth mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith yn cael ei gydnabod yn dda[37]. Yn fwy cyffredinol, mae rygbi yn gwneud cyfraniad sylweddol at ddenu pobl i wylio'r cyfryngau darlledu Cymraeg: yn hanner cyntaf 2025, gorchestau yn cynnwys y Scarlets oedd yr holl raglenni a wyliwyd amlaf ar S4C yn ystod yr wythnos:

**Tabl 3-1: Ffigurau gwylio S4C ar gyfer gorchestau'r Scarlets, Ionawr–Mai 2025**

| Dyddiad | Gêm | Niferoedd gwylio | Safle yn yr wythnos |
|---|---|---|---|
| 5 Ionawr | Scarlets – Dreigiau | 70,000 | 1 |
| 16 Chwefror | Scarlets – Gweilch | 79,000[38] | 1 |
| 20 Ebrill | Dreigiau – Scarlets | 44,000 | 1 |

[36] Roedd gan 53.3% o breswylwyr Sir Gaerfyrddin 'rywfaint o wybodaeth am y Gymraeg' yn ôl cyfrifiad 2021, o'i gymharu â 25.2% ledled Cymru.
[37] Gweler, er enghraifft, y dystiolaeth a gyflwynwyd fel rhan o raglen ARFOR.
[38] Gan gynnwys ailadrodd

*Ffynhonnell: Ffigurau gwylio S4C*

**3.22** Mae'r Scarlets hefyd wedi cefnogi ymdrechion i alluogi a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy chwaraeon, gan gynnwys drwy gyfrannu at y gwaith diweddar o ddatblygu adnoddau chwaraeon e-ddysgu dwyieithog a gyflwynwyd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol[39].

### Cymru gydnerth

**3.23** Mae'r nod llesiant hwn yn cyfeirio at gynaliadwyedd amgylcheddol. Mae gan Barc y Scarlets baneli solar ar do'r stadiwm a'r cyfleuster hyfforddi dan do, ac mae'n echdynnu dŵr ar gyfer dyfrhau'r cae drwy ddefnyddio technoleg tyllau turio. Yn ddiweddar, mae'r clwb wedi buddsoddi mewn dulliau cynnal a chadw tiroedd cynaliadwy pellach, ac mae Parc y Scarlets yn cynnig pwyntiau gwefru cerbydau trydan - hwn oedd y stadiwm cyntaf yng Nghymru i roi'r gorau i ddefnyddio cwpanau plastig tafladwy. Fel y nodwyd yn gynharach, cwmni rheoli gwastraff a thechnolegau amgylcheddol yw prif noddwr y Scarlets, a thrwy rôl Parc y Scarlets fel lleoliad pwysig sy'n gwasanaethu'r farchnad letygarwch leol, mae'n helpu i leihau milltiroedd teithio i Abertawe a chanolfannau mwy eraill.

### Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

**3.24** Yn olaf, mae'r Scarlets yn sefydliad rhyngwladol, sy'n cynnal timau o dramor ym Mharc y Scarlets ac yn cynrychioli'r rhanbarth a Chymru dramor. Mae gwerth economaidd hyn – o ran gwariant ymwelwyr – eisoes wedi'i ystyried yn y dadansoddiad effaith economaidd, ond mae enillion ehangach i Gymru o safbwynt cysylltiadau rhyngwladol. Mae Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru yn cyfeirio'n benodol at chwaraeon fel llwybr y bydd Cymru, a nwyddau a gwasanaethau Cymru, yn dod yn fwy adnabyddus amdano,[40] ac mae'n debygol bod y Scarlets yn codi ymwybyddiaeth ehangach o Sir Gaerfyrddin a de-orllewin Cymru nag y byddai modd ei wneud fel arall.

### Cysylltiadau elusennol

**3.25** Mae llawer o weithgarwch cymunedol y Scarlets yn cael ei gyflwyno drwy Sefydliad Cymunedol y Scarlets, sef elusen a sefydlwyd gan y clwb ac a gafodd gyllid gan y Scarlets, yn ogystal â chael y gallu i sicrhau rhoddion elusennol eraill. Yn ogystal, gwnaeth y clwb ymgysylltu â deg elusen drwy weithgareddau diwrnod gêm. Yn ogystal â nifer o elusennau yng Nghymru a'r DU, roedd y rhain yn cynnwys pedair elusen yn Sir Gaerfyrddin: Angor (sy'n cynnig cymorth canser), Links (elusen iechyd meddwl yn Llanelli), Cronfa Wish (elusen plant a gefnogir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda) a Maethu Cymru Sir Gaerfyrddin. Mae'n debygol bod y Scarlets yn chwarae rhan bwysig wrth godi proffil yr elusennau y mae'n eu cefnogi, yn enwedig sefydliadau lleol, llai o faint.

---

[39] Gweler Scarlets yn helpu i lansio adnodd addysg bellach newydd yn yr Eisteddfod
[40] Llywodraeth Cymru (2020), Strategaeth Ryngwladol i Gymru

SQW

## Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

**Ross Gill**
*Cyfarwyddwr Cyswllt, SQW*
Rhif ffôn: 07837 872705
E-bost: rgill@sqw.co.uk

2nd Floor East
Greenhill House
90-93 Cowcross Street
London
EC1M 6BF

**www.sqw.co.uk**

## Amdanom ni

### Grŵp SQW

Mae SQW ac Oxford Innovation yn rhan o Grŵp SQW.
**www.sqwgroup.com**

### SQW

Mae SQW yn ddarparwr gwaith ymchwil, dadansoddi a chyngor blaenllaw ym maes datblygiad economaidd a chymdeithasol cynaliadwy ar gyfer sefydliadau'r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ledled y DU ac yn rhyngwladol. Mae ei wasanaethau craidd yn cynnwys gwaith gwerthuso, asesu effaith economaidd, ac arfarnu; gwaith asesu galw, dichonoldeb a chynllunio busnes; gwaith ymchwil a dadansoddi economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol; gwaith datblygu sefydliadau a phartneriaethau; gwaith datblygu polisïau, strategaethau a chynlluniau gweithredu.
**www.sqw.co.uk**

### Oxford Innovation

Mae Oxford Innovation yn cefnogi twf economaidd drwy ddarparu cyngor, cyllid a gofod i fusnesau. Oxford Innovation Advice yw darparwr cymorth busnes rhagorol y DU i fusnesau bach a chanolig, gan ddarparu arbenigedd i helpu busnesau i gyflymu eu twf a chyflawni eu potensial. Mae Oxford Innovation Finance yn arbenigwr mewn darparu arian cyfalaf i dyfu a datblygu busnesau uchelgeisiol ac arloesol. Mae Oxford Innovation Space yn helpu i drawsnewid economïau lleol drwy greu amgylcheddau lle mae busnesau dynamig ac arloesol yn dod at ei gilydd ac yn ffynnu.
**www.oxfordinnovation.co.uk**